

Math o Adroddiad	Cofnodion		
Cyfarfod Meeting	Partneriaeth Gwledig Môn/Arloesi Môn		
Lleoliad Venue	Neuadd y Dref Llangefni		
Dyddiad Date	10/10/19	Amser Time	13.00 pm

**Yn Bresennol:**

Cynrychiolwyr Sector Menter:		
Nigel Peacock	(NP)	
Alwyn Williams	(AW)	Medwyns of Anglesey
Cynrychiolwyr Sector Gwirfoddol/Cymunedol		
Peter Davies OBE	(PD)	Menter Gymdeithasol Llangefni
Eifion Jones	(EJ)	CFfi
Adrian Roberts	(AR)	Severn Wye
Neville Evans	(NE)	
Cynrychiolwyr Sector Cyhoeddus		
Martin Jardine	(MJ)	Grŵp Llandrillo Menai (Cadeirydd)
Dewi Lloyd	(DLI)	Cyngor Sir Ynys Môn
Staff Menter Môn		
Jackie Lewis	(JL)	Menter Môn
Jane Davies	(JD)	Menter Môn
Sioned Morgan Thomas	(SMT)	Menter Môn
Mari Wyn Williams	(MW)	Menter Môn
Hefyd yn bresennol		
Ann		Cyfieithydd (Cymen)



Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
*Isle of Anglesey  
Charitable Trust*



Pwynt	Manylion	Cam Gweithredu
1	Croesawodd y Cadeirydd bawb.	
2	<p><b><u>Ymddiheuriadau</u></b>  Pryderi ap Rhisiart  Dylan Evans  Mari Faulkner  Dafydd Gruffydd  Sue Roberts</p>	
3	<p><b><u>Datganiad o Fuddiant</u></b>  Alwyn Williams - Grŵp Tyfwyr, parthed Ffurflen Diwygio Prosiect (PAF) a drafodwyd dan adran 6 isod.</p>	
4	<p><b><u>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 09/05/19</u></b>  Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18/07/19</p>	
5	<p><b><u>Materion yn Codi</u></b>  Dim</p>	
6	<p><b><u>Addasiadau Prosiect</u></b>  JD – Grŵp Tyfwyr  Hyd yn hyn, mae LEADER wedi ariannu'r grŵp tyfwyr i gynhyrchu taflen am arddwriaeth a chyflwyno sgysiau ar fecanweithiau tyfu penodol yn ogystal ag ymweliadau penodol. Mae'r PAF eisiau <b>£1,800</b> ychwanegol i gefnogi'r grŵp yn bellach dros y 12 mis nesaf.</p> <p>Er mwyn cefnogi'r grŵp wrth symud ymlaen, y bwriad yw parhau â'r trafodaethau eleni, ond hefyd cynnwys lwfans bychan i edrych ar amrywiaethau sydd â photensial pellach yn y farchnad. Bydd y grŵp yn gweithio gyda Môn Larder i sicrhau cadwyn gyflenwi i mewn i Ogledd Cymru o bosib</p> <p>Siaradodd Alwyn Williams am yr ewin garlleg newydd mae wedi bod</p>	



Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
*Isle of Anglesey*  
*Charitable Trust*



	<p>yn tyfu a dywedodd ei fod eisiau ei yrru i ffwrdd ar gyfer profion. Gofynnodd am arian technegol i gynnal y profion.</p> <p>Canlyniad: £1,800 wedi ei gymeradwyo.</p>	
7	<p><b><u>Adborth ar Brosiectau:</u></b> <i>Academi Dronau Môn -</i></p> <p>Dangoswyd astudiaeth achos drwy fideo i'r holl aelodau a oedd yn bresennol. Er bod aelodau yn awyddus i annog a recriwtio merched i fod yn rhan o'r academi nodwyd mai dim ond 2 ferch a ymunodd â'r academi. Dim ond bechgyn a gofrestrodd i gymryd rhan ar y dechrau, ac felly ymgwymerwyd â cham recriwtio penodol i annog merched ifanc i gymryd rhan. Cyflwynwyd y prif ganlyniadau, a'r adborth o'r holiadur ar-lein yn dilyn yr academi i'r aelodau, gyda'r cyfan yn gadarnhaol. Cymerodd 11 unigolyn ran yn yr academi, cafodd ei gapio ar 11 oherwydd cyllid a'r gymhareb plant i hyfforddwy.</p> <p>Cafodd y plant gyfle i fynd â'r dronau gartref, gyda phob rhiant/gwarchodwr yn llofnodi ymwadiad. Penderfynodd 10 allan o'r 11 unigolyn i gyfrannu'n wirfoddol at rediad yr academi gan godi £200.</p> <p>Nodwyd bod rhai o'r plant yn parhau i fod mewn cyswllt ag Aerialworx, cwmni dronau oedd yn gyfrifol am gynnal y sesiynau. Dywedwyd bod Aerialworx hefyd wedi dangos diddordeb mewn sefydlu clwb dronau neu barhau gydag academi flynyddol i bobl ifanc, a'u bod yn chwilio am gyllid pellach/nawdd ar hyn o bryd.</p> <p><i>Trên tir -</i></p> <p>Dangoswyd astudiaeth achos fideo o'r trên tir. Derbyniwyd adborth da gan y grŵp ar y cyfan. Tynnwyd sylw at ba mor hapus oedd y bobl yn y fideo, y gwirfoddolwyr yn benodol. Adroddwyd bod y grŵp ar hyn o bryd yn chwilio am ffrydiau cyllid posib i alluogi iddynt brynu trên tir a pharhau gyda'r gwasanaeth. Dywedodd DL efallai y byddai yna gyllid ar gael gan CSYM yn dibynnu ar gost y trên tir. Cadarnhawyd mai'r dyfynbris a roddwyd i'r grŵp i brynu'r trên tir yw £60,000 +TAW. Roedd yr aelodau'n falch i weld gobaith y byddai'r prosiect yn parhau. Awgrymwyd y dylid gyrru'r fideo i gwmni mordeithiau Royal Caribbean gyda'r gobaith y byddant yn gallu noddi'r trên, neu ei</p>	



Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
*Isle of Anglesey  
Charitable Trust*



	<p>hyrwyddo o leiaf.</p> <p>Codwyd £2,000 fel rhan o'r peilot, gyda chyfranogwyr yn cadarnhau eu bod yn barod i dalu mwy yn y dyfodol fel rhan o'r adborth.</p> <p><i>Astudiaeth Hydrogen -</i></p> <p>Cadarnhaodd SMT bod yr astudiaeth hydrogen bellach wedi ei chwblhau. Nodwyd mai hon oedd yr astudiaeth gyntaf a oedd yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid ac adnabod prosiectau hydrogen posibl ar gyfer yr ynys. Roedd y rhanddeiliaid yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru, Prifysgol, busnesau/gwasanaethau (Stena) a'r cwmnïau Cyfleustodau.</p> <p>Dywedwyd bod pum prosiect posib bellach wedi'u nodi ac mae £25,000 arall wedi'i sicrhau trwy'r Parth Menter i barhau â cham 2 - sef astudiaeth ddichonoldeb/cynllunio busnes ar gyfer pob un o'r pum prosiect.</p>	
8	<p><b><u>Cynigion Prosiect</u></b></p> <p><u>Awyr Dywyll</u> - nodwyd bod yr is-grŵp eisoes wedi cymeradwyo'r prosiect mewn egwyddor yn ogystal â'r gost. Nodwyd bod hwn yn brosiect trawswladol gyda Gwynedd, Lithwania ac Awstria (y prosiect trawswladol cyntaf i Menter Môn fod yn rhan ohono).</p> <p>Dywedwyd fod STEM Gogledd wedi mynegi diddordeb yn y prosiect hwn gan y bydd yn cynnwys disgyblion ysgol yn adeiladau telesgopau eu hunain. Bydd JD yn cwrdd â Tanya, un o'r mentoriaid STEM yr wythnos nesaf i drafod hyn ymhellach.</p> <p>Rhannodd DL gopiâu o'r llyfryn NOS.</p> <p>Cadarnhawyd mai'r dyddiad dechrau ar gyfer hyn fyddai Mehefin 2020, gydag ychydig o unigolion yn nodi y dylid rhyddhau'r arian ymlaen llaw i ddechrau'r prosiect cyn gynted â phosibl.</p> <p><b>Cymeradwywyd y prosiect am £20,000 + TAW</b></p>	



Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
*Isle of Anglesey  
Charitable Trust*



	<p><u>Gofal Ataliol Digidol -</u></p> <p>Nodwyd bod y prosiect hwn wedi cael ei ddatblygu o'r digwyddiadau Rhyngwrwd Pethau (IoT) a gynhaliwyd yn yr haf. Bydd yn brosiect ar y cyd â Gwynedd. Nod y prosiect yw ceisio adnabod a threialu technolegau newydd/arloesol a fydd yn galluogi timau iechyd a chymdeithasol i gefnogi symudiad tuag at ofal ataliol sylfaenol. Bydd y peilot yn edrych ar atebion yn benodol ar gyfer yr henoed (dros 70) nad oes ganddynt efallai fynediad i'r rhyngwrwd neu nad ydynt yn gwybod sut i ddefnyddio cymwysiadau symudol, gan eu grymuso a'u galluogi i gadw'n iach a byw bywydau annibynnol.</p> <p>Dangoswyd fideo am Bridgit, system posib y gellid ei threialu ar Ynys Môn i'r aelodau. Bydd y prosiect yn rhedeg am flwyddyn, gyda'r dechnoleg yn cael ei ddefnyddio am gyfnod o 6-9 mis.</p> <p>Cadarnhawyd bod y syniad ar gyfer y prosiect wedi dod gan Age Cymru Gwynedd &amp; Môn, Canllaw (Eryri) cyf ac CSYM yn dilyn ymlaen o'r digwyddiad sector-benodol a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2019, gan edrych yn benodol ar atebion IoT posibl yn y sector gofal.</p> <p>Gofynnwyd y cwestiynau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Pa gostau parhaus sy'n gysylltiedig â 'bridgit'?</li> <li>- Oes yna unrhyw adborth am 'Bridgit'? H.y. sut mae defnyddwyr eraill yn teimlo am y system?</li> <li>- Pwy fydd yn ymgymryd â'r monitro/gwaith cynnal?</li> <li>- Pwy fydd yr unigolyn a fydd yn cymryd rhan yn y prosiect?</li> <li>- Mynegwyd pryder ynglŷn â moeseg gyffredinol y prosiect</li> <li>- A oes yna unrhyw waith wedi ei wneud o ran dadansoddiad cost a budd Bridgit?</li> </ul> <p>Er bod SMT wedi ateb yr ymholiadau uchod fel a ganlyn, cytunwyd hefyd yr edrychid ymhellach ar yr ymholiadau hyn a'u hanfon drwy e-bost at yr aelodau maes o law.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Dim costau i'r unigolion fel rhan o'r prosiect peilot. Ddim yn gallu cadarnhau beth fydd y costau parhaus nes y bydd datrysiad penodol wedi cael ei sicrhau a'i gytuno. Dywedodd SMT ei bod yn hapus i ddarparu gwybodaeth am Bridgit.</li> </ul>	
--	--	--



Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
*Isle of Anglesey  
Charitable Trust*



	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cytunwyd y byddai SMT yn edrych i mewn i'r materion uchod ac yn rhoi adborth i'r grŵp.</li> <li>- Eglurwyd y byddai'r gwaith monitro'n cael ei wneud gan y cwmni a gafaelwyd ond byddai angen cytuno ar barhad y gwasanaeth ar ôl y prosiect.</li> <li>- Nodwyd y byddai unigolion yn cael eu recriwtio trwy broses galwad agored. Bydd yna faen prawf penodol yn ei le. Adroddwyd bod partneriaid y prosiect yn ogystal â sefydliadau eraill fel Medrwn Môn hefyd yn hapus i helpu i adnabod unigolion posibl.</li> <li>- Yn foesebol ddim yn siŵr beth fyddai ei angen, ond bydd cytundeb ar waith rhwng pawb sy'n ymwneud â gweithredu'r prosiect.</li> <li>- Cytunwyd y byddai SMT yn holi am y dadansoddiad cost a budd.</li> </ul> <p><b>Er bod yr aelodau'n awyddus i beidio ag oedi'r prosiect, cymeradwywyd y prosiect ar £23,820 (gan gynnwys TAW) yn amodol ar yr ymholiadau uchod yn cael eu hateb mewn e-bost.</b></p> <p><u>Ynys Môn 2020</u> - Syniad prosiect oedd hwn a ddaeth yn sgil y trafodaethau grŵp a gafwyd gyda Wavehill yng nghyfarfodydd GGLI Mai/Gorffennaf.</p> <p>Eglurodd JL bod yr enw wedi cael ei newid o Gŵyl Gerdded i Ynys Môn 2020.</p> <p>Bydd y prosiect hwn yn ceisio ailgyflwyno Gŵyl Gerdded Ynys Môn a dathlu a hyrwyddo'r amrywiaeth o waith a'r gwelliannau enfawr sydd wedi'u gwneud yn ein manau gwyrdd.</p> <p>Holodd MJ am y gwahaniaeth rhwng y peilot hwn a'r gwaith a wnaed eisoes. Cadarnhaodd JL y bydd elfennau o dreialu mwy o atebion digidol yn y prosiect peilot hwn yn ogystal ag edrych ar ddigwyddiadau a gweithgareddau o fewn sectorau twf. Nodwyd hefyd y byddai'r prosiect yn rhan o ddathlu 25 mlynedd o Menter Môn.</p> <p><b>Cymeradwyodd y Grŵp y prosiect mewn egwyddor gydag amcangyfrif o gost o £20,000 + TAW, OND cytunwyd y byddai hyn yn cael adolygu yng nghyfarfod nesaf y GGLI.</b></p>	
--	--	--



Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
*Isle of Anglesey  
Charitable Trust*



	<p><u>Cynllun Ynni'r Llanw</u> - Cynnig prosiect ychwanegol a gyflwynwyd gan SMT. Roedd y cynnig yn cynnwys £3,600 tuag at astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer cynllun ynni llanw ar raddfa fach a gynigiwyd ar gyfer ardal arglawdd gwibffordd Gogledd Cymru yn Ynys Gybi. Eglurwyd mai'r nod fyddai asesu potensial y safle yn fwy manwl a darparu gwybodaeth allweddol i ddarpar gyllidwyr y prosiect.</p> <p>Roedd yr aelodau'n bryderus am pam na allai'r rhanddeiliaid ddod o hyd i'r arian eu hunain, ac ai cyfraniad yn unig oedd hwn tuag at brosiect mwy.</p> <p><b>Cytunodd yr aelodau i BEIDIO â chymeradwyo ar hyn o bryd ond i geisio mwy o wybodaeth/eglurhad ynghylch y cyllid a'r rhanddeiliaid dan sylw.</b></p>	
	<p>Dosbarthwyd cofnodion o gyfarfod yr is-bwyllgor i bawb. Hysbyswyd yr aelodau bod cyllid wedi'i gymeradwyo fel rhan o'r potiau ymchwil gwerth £5,000 yn yr is-grŵp tuag at ymchwil a datblygu pellach ar gyfer llwybr beicio a phrosiect toiled.</p>	
	<p>Gwariant hyd yn hyn - darparwyd trosolwg o'r gwariant trwy gyflwyniad PowerPoint.</p> <p><a href="https://www.dropbox.com/s/06sx41pkxm9wmw6/AM%20Presentati%20on%2010-10-19.pptx?dl=0">https://www.dropbox.com/s/06sx41pkxm9wmw6/AM%20Presentati on%2010-10-19.pptx?dl=0</a></p> <p>Cadarnhaodd SMT fod y balans sy'n weddill ar gyfer gweithredu prosiect oddeutu £355,000 tan 2022.</p> <p>Trafododd yr aelodau'r ffordd orau i symud ymlaen i ddyrannu'r cyllid hwn. Mynegodd y mwyafrif o'r aelodau frwdfrydedd i weld prosiectau mwy yn dod ymlaen. Cytunwyd y byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal rhwng y Cadeirydd a Swyddogion MM.</p>	<p><b>Cytunwyd i gynnal trafodaeth fewnol.</b></p>
	<p><b><u>Unrhyw Fater Arall</u></b></p> <p>Rhoddodd DL fanylion am gynhadledd y buodd ynddi yn Llanelwedd, Bro Morgannwg. Mae ganddynt 3 prosiect, gwersylla, map cymunedol a thripiâu ysgol. Dywedodd y byddai'n anfon mwy o wybodaeth mewn e-bost.</p>	<p><b>DL i gylchredeg y wybodaeth berthnasol.</b></p>



Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
*Isle of Anglesey*  
*Charitable Trust*



	<p>Cynhadledd y Comisiwn Tegwch - Atgoffodd JL bawb o'r comisiwn tegwch a fydd yn cael ei gynnal ar 21 Hydref. Dywedodd y byddai neges e-bost yn cael ei hanfon allan i'r grŵp.</p> <p>Swydd Newydd - Cadarnhaodd SMT fod Meilir Pritchard wedi'i recriwtio fel ein Swyddog Cymuned Ddigidol ac y byddai'n dechrau yn y swydd ar 4 Tachwedd.</p>	<p><b>JL i anfon e-bost i'r aelodau gyda manylion</b></p>
8	<p><b><u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</u></b></p> <p>13 Chwefror 2020</p>	



Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
*Isle of Anglesey  
Charitable Trust*

